CYNGOR CYMUNED BODORGAN

Cofnodion Cyfarfod Llawn o'r Cyngor Cymuned a gynhaliwyd yng Nghanolfan Cymunedol Bodorgan – 16 Gorffennaf 2019.

1 Presennol:

Cynghorwyr Mr Dafydd Jones (Cadeirydd), Mr Selwyn Williams, Mr Andrew Hughes, Mr Tim Owen, Mr Gareth Evans, Mr Myfyr Davies, Mr Gwilym Looms, Mrs Sharon Barton. Hefyd Mr J Alun Foulkes (Clerc).

2 Ymddiheuriadau:

Cynghorydd Jeff Hughes & Cynghorwyr Sirol Mr Bryan Owen & Mr Peter Rogers.

3 Croesawyd pob aelod i'r cyfarfod gan y Cadeirydd

4 Datgan Diddordeb.

4.1 Roedd neb yn datgan diddordeb.

5 Derbyn & Cywiro Cofnodion Pwyllgor Llawn – 14/05/2019.

5.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd y cofnodion fel rhai cywir (**AH/GL**).

6 Derbyn & Cywiro Cofnodion Cyfarfod Blynyddol – 14/05/2019.

6.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd y cofnodion fel rhai cywir (**AH/GL**).

7 Materion yn codi o'r Cofnodion.

7.1 **Carafan, Malltraeth** – dim symudiad ar y sefyllfa.

7.2 **Safle Maes Glas, Bethel** – dim adroddiad pellach ar hyn o bryd.

7.3 **Llinellau Melyn ger y Meddygfa** – dim symud ar y sefyllfa ar hyn o bryd.

7.4 **Lamp Stryd Morawelon** – cytuno i drafod yn y cyfarfod nesaf.

7.5 **Hysbysfwrdd** – cadarnhad ei fod wedi ei gosod

7.6 **Lon Pont Marquis i Langaffo** – cadarnhad fod y lon yma yn cau am rhesymau cynnal a cadw

8 Materion Cyllid.

8.1 Cytunwyd gyda rhestr o daliadau a derbyniadau y Cyngor rhwng Mis Ebrill a Mis Mehefin 2019 yn unfrydol ac fe arwyddodd y Cadeirydd y ddogfen yn ogystal a cysoni mantolen y banc fel cadarnhad.

8.2 Cytunwyd wneud taliadau (2 x £500.00) yn unol a'r phriseb ar gyfer cynnal a chadw mynwentydd Eglwys Bethel a Eglwys Llangadwaldr erbyn y cyfarfod nesaf.

9 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

9.1 Cais Cynllunio Diwygio Amodau Cae Eithin, Malltraeth (VAR/2019/14) - Nodwyd fod y cais wedi ei alw I mewn ac fod yno ymweliad i'r safle wedi ei drefnu. Hefyd, nodwyd nad oedd sylwadau y Cyngor Cymuned ynglyn a perchennog y tir yn briodol .

10 PWYLLGOR SAFONNAU

10.1 Nodwyd fod y Clerc a'r cadeirydd wedi derbyn gwahoddiad I gyfarfod gyda aelodau Pwyllgor Safonnau y Cyngor Sir yn dilyn adroddiad Swyddfa Archwiliad Cymru.

11 ADRODDIAD CANOLFAN BODORGAN

11.1 Nid oedd gan y cadeirydd fawr I adrodd heblaw dweud y bydd rhaid cynyddu defnydd o'r adeilad er mwyn cyfiawnhau a chryfhau unrhyw gais cymorth ariannol.

12 GOHEBIAETH.

12.1 Ymgynghoriad Polisi Gosod Tai Cyffredin – ymgynghoriad yn cau ar y 5ed Awst 2019.

12.2 Arolwg Trefniadau Etholiadol Ynys Môn – arolwg yn cychwyn ar 19 Gorffennaf ac yn cau ar 10 Hydref 2019.

12.3 Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref & Chymuned – cyfarfod nesaf - 18fed Gorffennaf 2019.

12.4 Adroddiad Blynyddol Menter Môn – er gwybodaeth yn unig.

12.5 Adroddiad Ysgol Santes Fair – adroddiad fod y bydd corff bwrdd cysgodol newydd yn cael ei greu yn Mis Hydref 2019 gyda dim ond UN cynrychiolydd ar gyfer y 3 Cynghorau Cymunedol y bydd a bwrdd.

13 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 17/09/2019 - Clowyd y cyfarfod am 7:40yh.

Arwyddo.....**Cadeirydd**.....17/9/19.....**Dyddiad.**

CYNGOR CYMUNED BODORGAN COMMUNITY COUNCIL.

Rhestr Taliadau & Derbyniadau y Cyngor.

TALIADAU / PAYMENTS.

Dyddiad	Rhif Siec	Taler	Disgrifiad	Swm
01/08/2019	250	Playsafety Limited	Archwiliad Cae Chwarae	£82.20

DERBYNIADAU/ RECEIPTS:

26/08/2019	**Priseb 2 Cyngor Sir Ynys Mon**	**£3833.33**
26/08/2019	**Commonwealth War Graves**	**£12.00**

CYSONI

Gweddill	**30 Mehefin 2019**	**£14,159.53**
Derbyniadau		**£ 3,845.33 +**
		£18,196.86
Llai Gwariant		**£ 82.20 -**
CYFANSWM	**31 Awst 2019**	**£17,922.66**

BANC

Cyfrif Cyffredol	**£ 8,114.66**
Cyfrif Cadw	**£10,000.00**
Llai Sieciau heb cyflwyno	**£ 192.00**
CYFANSWM	**£17,922.66**

Arwyddo.....D.E. Jones.....**Cadeirydd**..17/9/2019.....**Dyddiad.**